

**Grŵp Arbenigol Cymru ar yr
Argyfwng Costau Byw**

**Ymateb Cryno ac Argymhellion ar
gyfer Gweithredu**

Awst 2023

Tabl Cynnwys

1. Cyflwyniad a Chefndir	3
1.1. <i>Grŵp arbenigol ar yr Argyfwng Costau Byw</i>	3
1.1 <i>Yr Argyfwng Costau Byw a'i Effaith ar Gymru</i>	3
1.2 <i>Ystyriaethau Allweddol i'r Grŵp</i>	6
2. Camau gweithredu i'w cymryd rhwng Medi 23 a Mawrth 24	8
2.1 <i>Manteisio i'r Eithaf ar y Cymorth a'r Ddarpariaeth Bresennol</i>	8
2.2 <i>Sicrhau bod gan Aelwydydd Incwm Isel 'yr Hanfodion'</i>	10
2.3 <i>Cefnogi Gwydnwch Emosiynol</i>	19
3. Camau gweithredu i'w cymryd rhwng Ebrill 24 a Ebrill 26	21
3.1 <i>Manteisio i'r Eithaf ar y Cymorth a'r Ddarpariaeth Bresennol</i>	21
3.2 <i>Sicrhau bod gan Aelwydydd Incwm Isel 'yr Hanfodion'</i>	22
3.3 <i>Cefnogi Gwydnwch Emosiynol</i>	23
3.4 <i>Dysgu, Gwerthuso ac Alinio</i>	24
4. Camau gweithredu i'w cymryd o Mai 26 ymlaen	25
4.1 <i>Trawsnewid Gwydnwch Ariannol</i>	25
Atodiad A: <i>Aelodau'r Grŵp Arbenigol</i>	28
Atodiad B: <i>Amcangyfrif o Daliad Costau Byw</i>	29
Atodiad C: <i>Enghreifftiau Darluniadol Buddsoddi i Arbed</i>	30
Atodiad D: <i>Crynodeb o'r Argymhellion</i>	31

1. Cyflwyniad a chefnidir

1.1 Grŵp arbenigol ar yr Argyfwng Costau Byw

Yng Ngaeaf 2023, ffurfiodd Llywodraeth Cymru grŵp o 18 o arbenigwyr (gweler Atodiad A), gyda phrofiad ac arbenigedd sylweddol yn dod o amrywiaeth o sefydliadau, i gynghori Is-bwyllgor Cabinet Llywodraeth Cymru ar yr Argyfwng Costau Byw (yr argyfwng) ar y canlynol:

- a) effaith yr argyfwng ar bobl yng Nghymru
- b) camau y dylid eu cymryd i liniaru effaith yr argyfwng yng Nghymru.

Ers hynny, mae'r Grŵp Arbenigol wedi:

- a) cynnal chwe chyfarfod mewnol i gymharu a thrafod tystiolaeth ar effaith yr argyfwng;
- b) darparu rhestr o gamau gweithredu a argymhellir ar gyfer Llywodraeth y DU cyn Datganiad y Gwanwyn;
- c) mynychu tri chyfarfod gydag Is-bwyllgor y Cabinet i ddangos maint, dyfnder ac effeithiau'r argyfwng ar aelwydydd yng Nghymru a thrafod argymhellion drafft gyda Gweinidogion.

Mae gweddill yr adroddiad cryno hwn yn cyflwyno argymhellion y Grŵp ar gyfer gweithredu ar yr argyfwng. Mae'r argymhellion wedi'u cyfeirio'n bennaf at Lywodraeth Cymru ond mae camau gweithredu ar gyfer eraill hefyd, gan gynnwys Llywodraeth y DU.

Mae cytundeb eang ar y set hon o argymhellion. Nodwn nad yw'r un o'r sefydliadau sy'n cael eu cynrychioli yn y grŵp yn wleidyddol eu natur, felly mae argymhellion yn ymwybodol ac yn amlwg yn amhleidiol. Nodir hefyd nad yw'r gwaith hwn yn atal y sefydliadau wnaeth gymryd rhan rhag gwneud argymhellion dilynol annibynnol i Lywodraeth Cymru ac eraill. Yn olaf, mae aelodau'r grŵp wedi cyfrannu ar sail eu gwybodaeth a'u profiad arbenigol eu hunain ac efallai na fydd hyn o reidrwydd yn cynrychioli barn eu sefydliadau.

1.2 Yr Argyfwng Costau Byw a'i effaith ar Gymru

Mae'r argyfwng wedi deillio o ddatblygiadau macro a micro-economaidd cyflym, dwys, wedi'u sbarduno gan chwyddiant, y mae eu heffeithiau wedi'u teimlo gan

unigolion, aelwydydd a chymunedau, ac yn enwedig y rhai ar incwm isel, ers diwedd 2021. Mae'r effeithiau economaidd hyn wedi gwaethygu cyflyrau economaidd-gymdeithasol sy'n bodoli eisoes wrth greu heriau cymdeithasol, iechyd a lles newydd, ac ehangu anghydraddoldebau presennol.

Mae'r argyfwng yn parhau â difrifoldeb cynyddol i aelwydydd yng Nghymru. Mae'n cael effaith ddwys a chymhleth ar fywydau llawer o bobl, gyda rhagamcanion economaidd yn awgrymu y bydd yr argyfwng yn parhau ymhell i mewn i 2024 ac y bydd yn arwain at ganlyniadau hirdymor.¹ Bydd biliau ynni cartref yn parhau i fod yn sylweddol uwch na'r cyfartaleddau hanesyddol drwy gydol 2023, gyda chwyddiant bwyd ar ei lefel uchaf ers 1977². Yng Nghymru roedd cyfanswm y parseli bwyd a ddosbarthwyd gan Ymddiriedolaeth Trussell yn 2022/23 yn fwy na 185,000, cynnydd o 41% o'i gymharu â 2021/22.

Mae taliadau rhent a morgais cynyddol yn effeithio'n sylweddol ar incwm gwario aelwydydd, gydag aelwydydd incwm isel yn fwy tebygol o fod yn rhentwyr preifat a wynebu costau uwch, oherwydd diffyg tai cymdeithasol.³ Mae tystiolaeth gan Shelter Cymru yn dangos cynnydd mewn gwaith achos yn ymwneud ag ôl-ddyledion rhent, lefelau rhent, ac eiddo ôl-ddyledion morgais.⁴ Mae'r data'n dangos nad yw'r effaith lawn ar ddiogelwch tai eto i'w deimlo wrth i nifer y bobl sydd mewn perygl o ddigartrefedd a chysgu ar y stryd, neu sy'n profi digartrefedd, godi ac mae'r dagfa mewn Llety Dros Dro (TA) yn parhau i dyfu. Mae data Llywodraeth Cymru yn dangos, erbyn Mai 2023, bod 10,872 o bobl, gan gynnwys plant wedi'u gosod mewn Llety Dros Dro, cynnydd o draean o'i gymharu â 2022⁵. Mae hyn yn cael ei waethygu gan brinder enbyd cartrefi cymdeithasol i'w rhentu, gan arwain at bron i 90,000 o aelwydydd yn aros am gartref ar restrau tai cymdeithasol.

Mae cyflog, yn enwedig yn y sector cyhoeddus, wedi lleihau mewn termau real ac mae incwm yn gostwng⁶. Mae dyled yn parhau i godi ac, am y tro cyntaf erioed yng Nghymru, roedd hanner y ceisiadau am gymorth gan Gyngor ar Bopeth Cymru yn 2023 gan y rhai mewn sefyllfa gyllidebu negyddol lle mae biliau cartrefi yn fwy na'r

¹ <https://www.resolutionfoundation.org/publications/the-living-standards-outlook-2023/>

² <https://www.ons.gov.uk/economy/inflationandpriceindices/articles/costofliving/latestinsights>

³ <https://ifs.org.uk/publications/housing-quality-and-affordability-lower-income-households>

⁴ Shelter Cymru, Cyflwyniad i Is-bwyllgor y Cabinet, Mai 2023

⁵ <https://www.gov.wales/homelessness-accommodation-provision-and-rough-sleeping-may-2023>

⁶ <https://www.ippr.org/news-and-media/press-releases/higher-pay-rises-for-public-sector-workers-in-key-services-would-not-be-inflationary-finds-ippr>

incwm⁷⁸. Mae budd-daliadau nawdd cymdeithasol y DU yn methu â darparu digon o gymorth i deuluoedd incwm isel gan nad ydyn nhw wedi cyfateb i chwyddiant.

Mae amcangyfrifon cyfredol yn dangos bod lefelau Credyd Cynhwysol £35 yr wythnos yn rhy isel i berson sengl a £65 yr wythnos yn rhy isel i gwpl⁹. Mae'r cyfyngiadau a gyflwynwyd yn 2017 megis y terfyn dau blentyn ar Gredyd Cynhwysol, ynghyd â rhewi cyfradd y Lwfans Tai Lleol, wedi cyfrannu at y risg uwch o ôl-ddyledion rhent a rhoi'r sector rhentu preifat allan o gyrraedd llawer o aelwydydd sydd angen cartref. Yn ogystal, mae symud pobl o hen fudd-daliadau i Gredyd Cynhwysol yn parhau yn gyflym, gan amlygu pobl i gyfnod aros o bum wythnos am daliad cyntaf, taliadau i un person yn unig mewn aelwyd, a thaliadau misol, sy'n aml yn amrywio, yn cael eu gwneud mewn ôl-ddyledion.

Mae'r data'n dangos effeithiau parhaus a gwaeth ar iechyd a lles. Mae ymchwil gan Sefydliad Bevan yn dangos bod dros hanner y bobl yng Nghymru wedi nodi bod eu sefyllfa ariannol yn ystod gaeaf 2023 wedi effeithio ar eu hiechyd meddwl, gyda thraean yn dweud bod eu hiechyd corfforol wedi cael ei effeithio¹⁰, a dywedodd bron i 80% o'r trigolion a holwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru eu bod yn 'bryderus iawn' neu 'braidd yn bryderus' am yr argyfwng yn ystod Gaeaf 2023, gyda chwarter yr ymatebwyr yn dweud bod costau byw cynyddol yn achosi straen a phryder sylweddol iddyn nhw¹¹.

Mae tystiolaeth yn dangos bod aelwydydd incwm isel penodol, fel y rhai â phobl anabl, aelwydydd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, merched, gofalgwyr, a'r rhai â phlant ifanc, yn cael eu heffeithio'n anghymesur gan y prisiau cynyddol sy'n gysylltiedig â'r argyfwng¹²¹³.

Mae'r Grŵp Arbenigol yn poeni'n arbennig am aelwydydd â phobl anabl gan fod y dystiolaeth yn dangos nad yw'r gefnogaeth a'r ddarpariaeth bresennol wedi bod yn ddigonol i gefnogi eu hanghenion byw'n annibynnol.¹⁴ Er enghraifft, aeth dros hanner y bobl anabl yng Nghymru sydd â cyflwr sy'n eu cyfyngu heb wres yn sylweddol yn ystod Gaeaf 2023¹⁵.

⁷ Dangosfwrdd Costau Byw Cyngor ar Bopeth Cymru Gorffennaf 2023

⁸ <https://wearecitizensadvice.org.uk/living-on-empty-245f4b9acbe3#8556>

⁹ <https://www.jrf.org.uk/report/response-budget-2023>

¹⁰ <https://www.bevanfoundation.org/wp-content/uploads/2023/02/Snapshot-of-poverty-in-winter-2023.pdf>

¹¹ Arolwg Iechyd Cyhoeddus Cymru Tachwedd 22-Chwefror 23, Ebrill 2023 (heb ei gyhoeddi eto).

¹² <https://www.jrf.org.uk/report/unable-escape-persistent-hardship-jrfs-cost-living-tracker-summer-2023>

¹³ Arolwg Iechyd Cyhoeddus Cymru Tachwedd 22-Chwefror 23, Ebrill 2023 (heb ei gyhoeddi eto).

¹⁴ <https://www.ons.gov.uk/economy/inflationandpriceindices/articles/costofliving/latestinsights>

¹⁵ <https://www.bevanfoundation.org/wp-content/uploads/2023/02/Snapshot-of-poverty-in-winter-2023.pdf>

Mae'r data hefyd yn nodi bod angen cymorth uniongyrchol i'r aelwydydd hynny sydd ychydig y tu allan i'r trothwyon cymhwysedd ar gyfer budd-daliadau, grantiau a lwfansau presennol, yn enwedig rhieni senl neu deuluoedd â mwy na dau o blant¹⁶. Nid yw'r aelwydydd hyn yn gymwys i gael cymorth ar hyn o bryd ac felly maen nhw mewn perygl difrifol o syrthio i dlodi dyfnach yn ystod y gaeaf sydd i ddod. Bydd hyn nid yn unig yn peryglu eu hiechyd a'u lles, ond bydd hefyd yn creu pwysau ychwanegol ar wasanaethau cyhoeddus sydd eisoes dan bwysau ac yn rhoi mwy o alw ar sefydliadau sy'n darparu cyngor a chymorth.

1.3 Ystyriaethau allweddol i'r grŵp

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Nodau Llesiant Cymru wedi bod ar flaen meddwl y Grŵp wrth ddatblygu ei argymhellion. Mae'r camau gweithredu a awgrymir yn canolbwyntio ar gynnal iechyd a lles drwy gefnogi aelwydydd gyda'r hanfodion sylfaenol - cael bwyd i'w fwyta, cartref i fyw ynddo, y gallu i gadw'n gynnes yn ystod y Gaeaf, a'r cyfle i gwrdd â ffrindiau a theulu. Maen nhw hefyd yn ceisio lleddfu pryderon cyson ynghylch costau byw.

Mae'r ffyrdd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) o bwys yma hefyd gan fod yn rhaid i'r ymateb i'r argyfwng fod yn un sy'n gyfannol, yn gynaliadwy, yn osgoi seilos polisi ac yn torri ar draws portffolios. Mae ymateb effeithiol i'r argyfwng hwn yn gofyn am gydweithio rhwng gwahanol sectorau, sawl lefel o lywodraeth a'r holl bartneriaid. Mae hefyd yn gofyn am feddwl hirdymor fel y gallwn ni gymryd camau ataliol nawr sy'n mynd i'r afael â phroblemau ar unwaith, gan gryfhau gwydnwch cenedlaethau'r dyfodol hefyd.

Mae llywodraethau wedi bod yn ymateb i'r argyfwng drwy gymryd camau pwysig, gan gynnwys cyflwyno taliadau Costau Byw drwy'r system fudd-daliadau a Chynllun Cymorth Tanwydd Cymru. Er bod rhai ymyriadau yn parhau, fel taliadau Costau Byw i rai aelwydydd ar fudd-daliadau, mae mathau eraill o gymorth uniongyrchol wedi gostwng mewn gwerth neu'n dod i ben er gwaethaf yr argyfwng parhaus. Yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau i uwchraddio lefel grantiau a lwfansau penodol, fel y Gronfa Cymorth Dewisol, tra'n parhau i ymdrech i liniaru tlodi. Mae'r ymdrechion hyn i'w gweld yng nghyhoeddiad Strategaeth Tlodi Plant newydd i Gymru sydd allan ar hyn o bryd ar gyfer ymgynghori.

¹⁶ <https://www.resolutionfoundation.org/publications/food-for-thought/>

Mae'r Grŵp Arbenigol yn cymeradwyo'r camau a gymerwyd hyd yma i frwydro yn erbyn y argyfwng. Mae aelodau'n ymwybodol iawn nad oes 'ateb syml' a all fynd i'r afael â'r sefyllfa hon ac maen nhw'n cydnabod yn yr un modd nad oes angen ailddyfeisio'r olwyn chwaith.

Yn syml, yr ymateb mwyaf effeithiol i'r argyfwng fydd:

- a) *cynyddu cyrhaeddiad ac effaith y ddarpariaeth bresennol* - drwy gynyddu'r nifer sy'n manteisio ar grantiau a lwfansau, lleihau cymhlethdod a chynnal gwerth grantiau a lwfansau;
- b) *targedu ymyriadau ychwanegol tuag at y rhai sy'n profi'r caledi mwyaf* - er mwyn diwallu eu hanghenion hanfodol ar gyfer bwyd, gwresogi, tai, iechyd a lles;
- c) *nodi a chefnogi'r aelwydydd ar yr ymylon* - y rhai sy'n llithro drwy'r rhwyd ac sy'n anghymwys i gael darpariaeth bresennol.

Mae argyfyngau yn mynnu ymatebion ar unwaith gan lywodraethau. Mae'r argyfwng yn effeithio ar aelwydydd a theuluoedd *nawr* ac os na fyddwn ni'n cymryd camau ataliol mewn meysydd allweddol yn y tymor byr, bydd mwy o bobl yn dioddef caledi economaidd a heriau iechyd a lles cysylltiedig. Bydd unrhyw oedi yn achosi i broblemau gronni ac arwain at gostau ychwanegol i wasanaethau cyhoeddus a chyllid cyhoeddus yn y dyfodol. Yn yr un modd, mae'r Grŵp Arbenigol yn cydnabod yr angen i adeiladu gwydnwch ariannol dros amser ac mae aelodau'n ymwybodol o'r cyd-destun cyllidebol cyfyngol ar bob lefel o lywodraeth a allai gyfyngu ar le i weithredu.

Serch hynny, barn y Grŵp yw bod yr argyfwng mor arwyddocaol fel ei bod yn hanfodol bod ymdrechion ychwanegol yn cael eu gwneud yn y tymor byr, yn ogystal â diwygiadau tymor hwy. Bydd y rhain yn gofyn am rywfaint o gyllid ychwanegol y gellid ei ddarparu drwy gynhyrchu refeniw neu arbedion costau adferedig. Er enghraifft, mae Llywodraeth y DU wedi cronni tanwariant sylweddol ar fentrau yr argyfwng sy'n gysylltiedig ag ynni, megis ar y Warrant Pris Ynni, Cynlluniau Cymorth Biliau Ynni a Thaliadau Tanwydd Amgen. Gellid dadlau'r achos i gyfran o'r tanwariant hwn gael ei ddyrannu i'r cenhedloedd datganoledig er mwyn cefnogi camau y mae angen eu cymryd ar yr argyfwng.

I grynhoi, gofynnwyd i'r Grŵp wneud argymhellion mewn argyfwng sy'n gofyn am weithredu ar frys i liniaru niwed yn y tymor byr a'r tymor hir, o fewn cyd-destun lle mae adnoddau'n gyfyngedig. Rydym ni wedi ymateb i hyn drwy wneud y canlynol:

- a) gwneud argymhellion sy'n seiliedig ar dystiolaeth a fydd yn cael effaith;
- b) nodi argymhellion 'cost isel' lle bo hynny'n bosibl;
- c) blaenoriaethu camau gweithredu lle bydd buddsoddi nawr yn cynhyrchu arbedion i'r pwrs cyhoeddus yn y tymor hwy;
- d) cyflwyno'r argymhellion fesul cam dros gyfnod o dair blynedd: Medi 2023-Mawrth 2024, Ebrill 2024-Ebrill 2026, a Mai 2026 ymlaen.

2. Camau gweithredu i'w cymryd rhwng Medi 23 a Mawrth 2024

2.1 Manteisio i'r eithaf ar y cymorth a'r ddarpariaeth bresennol

Cynyddu nifer y bobl sy'n manteisio ar ddarpariaeth

Mae'r Grŵp Arbenigol wedi adolygu tystiolaeth sy'n dangos bod gan lawer o fudd-daliadau, grantiau a lwfansau datganoledig a heb eu datganoli gyfraddau manteisio o lai na 100%. Er enghraifft, dangosodd arolwg diweddar gan lechyd Cyhoeddus Cymru nad oedd 30% o'r rhai a holwyd yn ymwybodol o'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, gyda'r ffigwr hwn yn codi i 75% yn achos y Gronfa Cymorth Dewisol a'r Grant Datblygu Disgyblion.¹⁷ Mae ymchwil lechyd Cyhoeddus Cymru hefyd yn dangos nad yw 40% o'r rhai sy'n gymwys i gael Dechrau'n Iach yn hawlio'r gefnogaeth hon. Esbonnir y lefelau isel hyn o fanteisio ar y cynlluniau hyn trwy gyfuniad o ffactorau, gan gynnwys diffyg ymwybyddiaeth, y cymhlethdod sy'n gysylltiedig â gwneud cais am grantiau a lwfansau, a stigma sy'n gysylltiedig â derbyn cymorth.

1. Mae'r Grŵp Arbenigol yn argymhell bod Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i wella lefel y nifer sy'n manteisio ar grantiau, lwfansau a chymorth budd-daliadau sydd eisoes ar gael i aelwydydd.

Gellir gweithredu'r argymhelliad hwn yng Nghymru drwy ymgyrch wedi'i thargedu, wedi'i chydlynu, sy'n cael ei sbarduno gan ddata, a fyddai'n cael ei chyflwyno drwy awdurdodau lleol a sefydliadau eraill sy'n gallu manteisio ar ddata a all nodi aelwydydd incwm isel. Mae'r Grŵp Arbenigol yn awgrymu, yn wahanol i ymgyrch gwybodaeth gyhoeddus ehangach, y bydd dull cydlynol, â ffocws yn fwy effeithiol yn y tymor byr gan y bydd hyn yn blaenoriaethu ac yn cyrraedd yr aelwydydd hynny sydd â'r angen mwyaf.¹⁸

Mynd i'r afael â phrisiau uchel a chodi ymwybyddiaeth o dariffau cymdeithasol

Mae'r Grŵp Arbenigol yn ymwybodol bod prisiau'n codi ar draws ystod o gyfleustodau a gwasanaethau ac yn aml lle nad oes sail dystiolaeth y gellir ei nodi'n glir ar gyfer cynnydd mewn costau - er enghraifft, mewn perthynas â gwasanaethau rhyngryd a ffonau symudol. Yn ogystal, mae costau cyfleustodau

¹⁷ Arolwg Iechyd Cyhoeddus Cymru Tachwedd 22-Chwefror 23, Ebrill 2023 (heb ei gyhoeddi eto).

¹⁸ Iechyd Cyhoeddus Cymru, Adroddiad Uwchgyhadledd Adeiladu Cymru Iachach, 2023.

wedi bod yn cynyddu i deuluoedd. Yn ogystal â rheoli'r heriau o dalu biliau ynni cynyddol, mae Cyngor ar Bopeth Cymru wedi dweud bod aelwydydd yn wynebu lefelau cynyddol o ddyledion ar ddŵr a charthffosiaeth¹⁹. Er bod cwmnïau cyfleustodau wedi bod yn cynnig tariffau cymdeithasol ar gyfer gwasanaethau, mae diffyg ymwybyddiaeth o'r rhain ac o ganlyniad lefel isel o bobl yn manteisio arnynt.

2. Mae'r Grŵp Arbenigol yn argymhell bod Llywodraeth y DU yn annog ymchwiliad gan yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd i ymchwilio i gynnydd mewn taliadau dŵr a phrisio rhyngrwyd a data.

3. Mae'r Grŵp Arbenigol yn argymhell bod Llywodraeth Cymru a'r DU yn annog cwmnïau cyfleustodau i gymryd rhan mewn ymgyrchoedd hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth mwy rhagweithiol ar gyfer tariffau cymdeithasol a dangos gwell defnydd o'r tariffau hyn.

Sicrhau bod eraill yn chwarae eu rhan

Mae'n bwysig bod ystod lawn o sefydliadau yn gweithredu i leddfu effaith yr argyfwng. Mae'r Grŵp Arbenigol wedi adolygu tystiolaeth sy'n dangos y gellid gwneud mwy o gynnydd i gydlynu partneriaid. Byddai hyn yn sicrhau bod pawb yn cyflawni eu cyfrifoldebau a gall sefydliadau gydweithio i gyflymu gweithredu ar y cyd i fynd i'r afael â'r argyfwng.

4. Mae'r Grŵp Arbenigol yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn defnyddio ei phwerau i gynnull sefydliadau partner a chymryd rhan mewn her adeiladol ar gynnydd sy'n cael ei wneud ar bolisiau sy'n gysylltiedig â Chostau Byw i gyflymu gweithredu cydlynol.

Gellir gweithredu'r argymhelliad hwn gan Weinidogion sy'n cadeirio cyfres o gyfarfodydd â ffocws gyda phartneriaid i drafod, asesu a chefnogi cynnydd ar weithredoedd yr argyfwng gan gynnwys:

1. Llywodraethwyr ysgol ar gyflawni eu rhwymedigaethau statudol o ran gwisg ysgol;
2. Landlordiaid cymdeithasol ar roi terfyn ar droi allan i ddigartrefedd a hyrwyddo caffaeliadau, yn ogystal â landlordiaid preifat ar hyrwyddo a chefnogi sefydlogrwydd a fforddiadwyedd;

¹⁹ Cyngor ar Bopeth Cymru, Cyflwyniad i Is-bwyllgor y Cabinet, Mawrth 2023.

3. Awdurdodau lleol ar annog gorfodi amddiffyniadau tenantiaid presennol drwy Swyddogion Gorfodi'r Sector Rhentu Preifat yr ALL;
4. Cynghorwyr a chymunedau ar wrthwynebiad i ddarparu llety dros dro a thai cymdeithasol;
5. Awdurdodau lleol ar eu strategaethau tlodi plant lleol a mabwysiadu asesiadau o effaith ar hawliau plant;
6. Sefydliadau trydydd sector, gan gynnwys y rhai sy'n gwasanaethu'r poblogaethau sy'n cael eu heffeithio fwyaf gan yr argyfwng, ar sicrhau'r mynediad mwyaf posibl at gyngor a chymorth i aelwydydd, a gwneud y defnydd gorau o adnoddau cyfyngedig.

Dysgu a gwerthuso

Mae'r Grŵp Arbenigol wedi nodi nifer o feysydd lle byddai data ychwanegol a gwybodaeth bellach yn cynorthwyo i asesu lefelau cydymffurfio, adolygu cynnydd, a gwerthuso effaith gynnar mentrau.

5. Mae'r Grŵp Arbenigol yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn casglu ac yn cyhoeddi data a gwybodaeth ychwanegol sy'n berthnasol i'r Argyfwng Costau Byw er mwyn monitro cynnydd a chydymffurfiaeth.

Gellir gweithredu Argymhelliad 5 drwy gasglu a chyhoeddi data ar y canlynol:

1. grantiau a lwfansau datganoledig gan gynnwys nifer y ceisiadau, canlyniadau, gwariant ac amser o gymeradwyaeth i benderfyniad;
2. gwariant chwarterol gan awdurdodau lleol ar Daliadau Tai Dewisol a'r Gronfa Atal Digartrefedd yn ôl Disgresiwn;
3. data ar ddyraniadau landlordiaid cymdeithasol i asesu lefelau blaenoriaeth sy'n cael eu rhoi i aelwydydd digartref, gyda dadansoddiad traws-dablau i archwilio anghydraddoldebau, ac archwiliad o bwy sydd wedi'i eithrio o ddyraniadau;
4. Busnesau cartref lleiaf ac o bosibl mwyaf bregus Cymru, gan ganolbwyntio ar eu gwydnwch ariannol a'u cyfraddau ansolfedd.²⁰

2.2 Sicrhau bod gan aelwydydd incwm isel 'yr hanfodion'

Darparu cymorth gyda biliau cartref

²⁰ Max Munday, Cyflwyniad i Is-bwyllgor y Cabinet Mai 2023

Mae data'n dangos bod gwerth budd-daliadau wedi gostwng mewn termau real²¹ a bod aelwydydd incwm isel yn fwy agored i effeithiau chwyddiant bwyd ac ynni^{22, 23}. Clywodd y Grŵp Arbenigol dystiolaeth hefyd oedd yn dangos bod dros hanner y bobl ifanc 12-18 mlwydd oed yng Nghymru yn poeni a oedd gan eu teuluoedd ddigon o arian, gyda chwarter yn poeni am gael cartref a digon i'w fwyta²⁴. Mae sawl math o gartrefi dan bwysau difrifol ond mae'r Grŵp Arbenigol yn arbennig o bryderus am y canlynol:

- Aelwydydd incwm isel gyda phlant, ac yn arbennig gyda thri neu fwy o blant - oherwydd bod y terfyn dau blentyn ar Gredyd Cynhwysol yn effeithio ar yr aelwydydd hyn a'u bod nhw'n derbyn yr un taliad costau byw gan Llywodraeth y DU ag aelwydydd llawer llai;
- Aelwydydd incwm isel sy'n cynnwys person anabl - oherwydd bod gan yr aelwydydd hyn gostau byw ychwanegol.

Mae'r grwpiau cartref penodol hyn yn profi angen dybryd am gymorth tymor byr gyda'u costau cynyddol. Yn ddelfrydol, byddai hyn yn cael sylw gan godiad ledled y DU mewn Credyd Cynhwysol ond yn absenoldeb hyn, y dull mwyaf effeithiol o gyflawni hyn yw trwy daliadau ychwanegol.

Mae'r dadansoddiad diweddaraf gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid yn dangos bod taliadau Costau Byw Llywodraeth y DU 'wedi helpu i leddfau amddifadedd sylweddol' i aelwydydd ar yr incwm isaf un.²⁵ Mae'r ymchwiliad yn datgelu bod taliad yr haf 'wedi rhoi hwb sylweddol i wariant' sy'n awgrymu bod llawer o aelwydydd yn debygol o gyfyngu ar wariant ac yn profi caledi cyn i'r taliad gael ei wneud. Dangosodd y cynnydd dilynol mewn gwariant bwyd ac adloniant fod y taliadau'n rhoi hwb ar unwaith o gymorth ar gyfer hanfodion, cyfranogiad cymdeithasol a lles.

Mae'r ymchwiliad hefyd yn dangos y gallai taliadau costau byw Llywodraeth y DU fod wedi cael mwy fyth o effaith pe baent wedi'u teilwra i amgylchiadau gwahanol aelwydydd bregus ac mae'n pwysleisio pwysigrwydd gwneud taliadau rheolaidd trwy randaliadau yn hytrach na darparu cyfandaliadau²⁶.

²¹ Huw Dixon, Cyflwyniad i Is-bwyllgor y Cabinet Mawrth 2023.

²² <https://www.resolutionfoundation.org/publications/food-for-thought/>

²³ <https://www.jrf.org.uk/report/unable-escape-persistent-hardship-jrfs-cost-living-tracker-summer-2023>

²⁴ https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2023/07/AmbitionsforWales_FINAL_ENG.pdf

²⁵ <https://ifs.org.uk/news/lump-sum-cost-living-payments-poorly-designed-alleviate-deprivation>

²⁶ <https://ifs.org.uk/news/lump-sum-cost-living-payments-poorly-designed-alleviate-deprivation>

6. Mae'r Grŵp Arbenigol yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno Taliad Costau Byw Plant ar sail rhandaliad ar gyfer aelwydydd incwm isel gyda phlant.

7. Mae'r Grŵp Arbenigol yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno Taliad Costau Byw Person Anabl ar sail rhandaliad ar gyfer aelwydydd â pherson anabl.

Gellir gweithredu'r argymhellion hyn drwy system lle mae cartrefi yn cael tri thaliad misol ym mis Ionawr, Chwefror a Mawrth 2024 sy'n cael ei weinyddu gan awdurdodau lleol, yn debyg i Gynllun Cymorth Tanwydd Cymru. Mae'r Grŵp yn awgrymu bod awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'i gilydd i gyflawni lefelau uchel o fanteisio ar y taliad, o bosibl drwy ddull 'pasbortio'.

Mae'r costau cychwynol (gweler Atodiad B) yn nodi cyfanswm cost o tua £20 miliwn ar gyfer taliadau i deuluoedd incwm isel â phlant (gyda thaliad fesul plentyn yn seiliedig ar Taliad Plant yr Alban²⁷) a thua £8 miliwn ar gyfer aelwydydd anabl incwm isel. Mae'r amcangyfrifon hyn yn seiliedig ar y canlynol:

- taliad o £150 i aelwydydd incwm isel gydag 1-2 o blant a fyddai'n costio £12.79m;
- taliad o £300 i aelwydydd incwm isel gyda 3+ o blant a fyddai'n costio tua £7.16m;
- taliad o £150 i aelwydydd incwm isel gan gynnwys person anabl a fyddai'n costio £8.37m.

Mae gan y Grŵp Arbenigol bryder penodol pellach ynghylch yr angen am gymorth gyda biliau ynni ar gyfer y gaeaf sydd i ddod o ystyried bod y rhain yn debygol o fod £600 yn uwch ar gyfartaledd nag yr oeddent ar ddechrau 2022. Mae tystiolaeth gan Gyngor ar Bopeth Cymru yn dangos bod biliau ynni ar gyfer y rhai sy'n cael cyngor ar ddyledion wedi codi 73% ers 2019, gan gynyddu o £112 i £194²⁸. Mae amrywiaeth o gamau i'w cymryd yma, gan gynnwys adolygu goblygiadau'r Cod Ymarfer newydd ar PPM anwirfoddol.

Mae'r Grŵp Arbenigol yn nodi'r consensws ymhlith cyflenwyr ynni, grwpiau defnyddwyr ac elusennau mai blaenoriaethu cymorth wedi'i dargedu ar ffurf tariff cymdeithasol newydd fyddai'r ffordd fwyaf effeithiol o gefnogi aelwydydd incwm isel yn y tymor byr. Mae amcangyfrifon yn nodi y byddai cyflwyno tariff cymdeithasol yn sicrhau budd sylweddol gan y byddai'n golygu y byddai teuluoedd

²⁷ Mae'r costau hyn yn seiliedig ar lefel taliad Plant yr Alban (£25 y plentyn) ond gellid mabwysiadu cyfraddau allanol eraill fel cyfradd Credyd Cynhwysol o £269.58 y mis fesul plentyn neu gyfraddau Budd-dal Plant sy'n £24 yr wythnos ar gyfer plentyn cyntaf a £15.90 ar gyfer plant wedi hynny.

²⁸ <https://www.energy-uk.org.uk/news/government-must-switch-on-to-help-vulnerable-energy-customers-this-winter/>

sy'n derbyn cyngor ar ddyledion yn gorffen y mis gyda £13.18 i'w sbario, yn hytrach na bod £23.40 allan o boced, sy'n cynrychioli arbediad o £438.96 iddynt dros 12 mis²⁹.

Byddai gweithredu yma yn golygu bod Llywodraeth y DU yn cyhoeddi ei hymgyngoriad arfaethedig a gweithio gydag eraill i weithredu tariff cymdeithasol newydd cyn gynted â phosibl.

8. Mae'r Grŵp Arbenigol yn argymhell bod Llywodraeth y DU yn gweithio gyda darparwyr ynni, grwpiau defnyddwyr ac elusennau i gynllunio ar gyfer cyflwyno tariff cymdeithasol newydd i gefnogi aelwydydd incwm isel gyda'u biliau ynni y gaeaf nesaf, yn ogystal â'r canlynol:

- a) adolygu goblygiadau datblygiadau diweddar, megis y Cod Ymarfer newydd ar PPM Anwirfoddol;*
- b) gofyn am ostyngiad yn y premiwm ar gredyd safonol;*
- c) camau cynllunio ar wahaniaethau costau rhanbarthol.*

Prydau Ysgol am Ddim (FSM) i ddisgyblion sy'n 'llithro drwy'r rhwyd'

Mae buddion addysgol, iechyd a lles FSM yn cael eu cydnabod yn eang. Mae FSM yn lleihau costau aelwydydd i deuluoedd, yn ogystal â hybu gwydnwch ariannol, darparu buddion maethol, a lleihau risgiau tlodi^{30,31}. Mae'r Grŵp Arbenigol yn croesawu rhaglen Llywodraeth Cymru o Brydau Ysgol am Ddim ar gyfer disgyblion ysgolion cynradd yng Nghymru yn fawr ond mae'n parhau i bryderu am ddisgyblion ysgolion uwchradd.

Yn ôl tystiolaeth gan Gomisiynydd Plant Cymru, mae lefel uchel o bryder am yr argyfwng gan blant a phobl ifanc ar yr incymau isaf, gyda dwy ran o dair o'r rheini yn yr ysgol uwchradd o'r grwpiau incwm isaf yn bryderus am gael digon o fwyd a chartref³².

Mae'n amlwg bod y cyfyngiadau presennol ar gymhwysedd am FSM yn gyfyngol³³. Mae'r Grŵp Arbenigol yn canolbwyntio'n benodol ar y sefyllfa ar gyfer aelwydydd incwm isel ar fudd-daliadau nad ydynt yn gymwys ar hyn o bryd am FSM. Mae'r

²⁹ <https://www.energy-uk.org.uk/news/government-must-switch-on-to-help-vulnerable-energy-customers-this-winter/>

³⁰ <https://www.bevanfoundation.org/wp-content/uploads/2023/04/Final-A-data-view-of-a-common-approach-to-Welsh-benefits-Bevan.pdf>

³¹ https://phwwhooc.co.uk/wp-content/uploads/2023/06/ENGLISH-PHW-IntHorizonScan_Report-44_June2023_FINAL-DRAFT.pdf

³² Comisiynydd Plant Cymru, Cyflwyniad i Is-bwyllgor y Cabinet, Mai 2023

³³ Grŵp Cydlynu Adeiladu Cymru Iachach, Adroddiad i'r Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol Mawrth 2023.

teuluoedd hyn yn derbyn Credyd Cynhwysol ond maen nhw ychydig y tu allan i'r meini prawf cymhwysedd oherwydd y cap enillion a gyflwynwyd yn 2019. Mae darpariaeth FSM yn hanfodol i helpu'r teuluoedd hyn i osgoi sefyllfaoedd cyllidebu negyddol a phrofi lefelau tlodi dyfnach.

9. Mae'r Grŵp Arbenigol yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ymestyn darpariaeth prydau ysgol am ddim i Flwyddyn 7-11 i'r aelwydydd hynny sy'n derbyn Credyd Cynhwysol, heb gap ar enillion.

Mae'n bosibl gweithredu'r argymhelliad hwn o fis Medi 2023 ymlaen drwy'r system cardiau rhagdalau gyda chyllid ychwanegol o £3.8m. Cyfrifir hyn ar y sail y byddai 8,335 o ddisgyblion yn dod yn gymwys, tua 45 fesul ysgol uwchradd.³⁴ Mae'r camau hyn yn rhoi budd sylweddol i aelwydydd incwm isel gan y byddai ymrwymiad Llywodraeth Cymru yn cynrychioli arbediad cost cyfartalog o £1281.59 y flwyddyn i aelwydydd newydd sy'n gymwys.³⁵

Mae hefyd yn cynrychioli cyfle Buddsoddi i Arbed sylweddol. Er enghraifft, mae dadansoddiad cost budd a gynhaliwyd gan Urban Health UK yn amcangyfrif y byddai FSM ar gyfer holl ddisgyblion y wladwriaeth yn Lloegr yn darparu £41.3bn o fuddion craidd, gyda £1.71 o elw ar bob £1 a fuddsoddwyd mewn FSM yn 2025-2045³⁶.

Mae'r Grŵp yn ymwybodol o'r profiad o gyflwyno FSM ar draws ysgolion cynradd ond mae'n amlwg bod gwahaniaethau pwysig rhwng y ffordd mae systemau prydau ysgol yn gweithredu mewn lleoliadau cynradd o'u cymharu ag ysgolion uwchradd. Mae'r gwahaniaethau hyn yn dangos bod gweithredu FSM mewn ysgolion uwchradd yn llawer symlach.

Er enghraifft, mae'r rhan fwyaf o ysgolion uwchradd eisoes yn gweithredu systemau ffreutur ar raddfa fwy, mae disgyblion yn defnyddio cardiau rhagdaledig ar gyfer eu prydau bwyd, ac mae llai o ddisgyblion uwchradd yn mynd â pheccynau bwyd. Mae hyn i gyd yn golygu na fydd angen y math o addasiad rydym ni wedi'i weld mewn ysgolion cynradd mewn ysgolion uwchradd, ac yn sicr nid i'r un graddau.

³⁴ <https://www.bevanfoundation.org/wp-content/uploads/2021/05/Extending-the-provision-of-Free-School-Meals-in-Wales-Policy-in-Practice-final.pdf>

³⁵ <https://www.bevanfoundation.org/wp-content/uploads/2021/05/Extending-the-provision-of-Free-School-Meals-in-Wales-Policy-in-Practice-final.pdf>

³⁶ <https://urbanhealth.org.uk/wp-content/uploads/2022/10/FSM-Executive-Summary.pdf>

Er bod gan ddarpariaeth FSM sail statudol, yn ein barn ni nid yw newid deddfwriaethol yn rhagofyniad ar gyfer ymestyn y ddarpariaeth fel mae Llywodraeth Cymru wedi'i ddangos wrth gyflwyno prydau ysgol am ddim mewn ysgolion cynradd.

Gwella iechyd a lles drwy fwyd a hwyl

Mae'r Grŵp Arbenigol wedi adolygu tystiolaeth sy'n dangos bod teuluoedd yn fwyfwy pryderus am eu sefyllfa ariannol ac yn aml yn hepgor prydau bwyd i reoli cyllidebau cartrefi.³⁷³⁸ Mae'r Grŵp yn arbennig o bryderus am yr effaith ar blant gydag ymchwil gan Gomisiynydd Plant Cymru yn nodi bod dwy ran o dair o blant 7-11 mlwydd oed a hanner y bobl ifanc 12-18 mlwydd oed yn poeni nad oes gan eu teuluoedd ddigon o arian.³⁹

O ystyried y manteision cydnabyddedig mae FSM yn eu darparu wrth leihau anghydraddoldebau iechyd, roedd y Grŵp Arbenigol yn siomedig o glywed na fydd FSM ar gael yn ystod gwyliau'r haf 2023 ac, fel yr ydym ni'n ei ddeall, mewn unrhyw flynyddoedd dilynol yn ystod tymor y Senedd hon.

Mae'r Aelodau'n croesawu'r cyhoeddiad y bydd y Rhaglen Bwyd a Hwyl ar gyfer plant ysgol a phobl ifanc yn rhedeg ar draws pob un o'r 22 awdurdod lleol yn ystod Haf 2023. Mae'r Rhaglen hon yn helpu teuluoedd gyda'u costau dyddiol ac yn gwella eu hiechyd a'u lles. Rydym ni'n cydnabod y manteision hyn sy'n gysylltiedig â Bwyd a Hwyl ac felly byddem ni'n croesawu ei ymestyn i gwmpasu cyfnodau gwyliau eraill yn 2023 a 2024, o gofio bod tystiolaeth yn dangos y bydd Gaeaf 2023-24 yn heriol iawn i aelwydydd.

Gall y Grŵp Arbenigol hefyd weld budd posibl mewn rhaglen gyfatebol i oedolion sy'n adeiladu ar lwyddiant rhaglen Hwb Cynnes Gaeaf 2023. Gallai hyn gynnwys gweithgareddau gyda manteision iechyd a lles sy'n cael eu trefnu mewn canolfannau hamdden a pharciau yn ystod yr Hydref a chefnogaeth i Hybiau Cynnes yn ystod y Gaeaf.

10. Mae'r Grŵp Arbenigol yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ymestyn cyrhaeddiad y rhaglen 'Bwyd a Hwyl' fel ei bod yn blaenoriaethu teuluoedd incwm isel ac yn rhedeg ar draws pob un o'r 22 awdurdod lleol yn ystod holl gyfnodau gwyliau'r ysgol yn yr Hydref, y Gaeaf a thu hwnt.

³⁷ Arolwg Iechyd Cyhoeddus Cymru Tachwedd 22-Chwefror 23, Ebrill 2023 (heb ei gyhoeddi eto).

³⁸ <https://www.resolutionfoundation.org/publications/hoping-and-coping/>

³⁹ Comisiynydd Plant Cymru, Cyflwyniad i Is-bwyllgor y Cabinet, Mai 2023

11. Mae'r Grŵp Arbenigol yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cefnogi ac yn annog rhaglenni sy'n seiliedig ar weithgareddau lleol i oedolion sy'n darparu cymorth gyda chostau a manteision iechyd a lles.

Darparu cartrefi cynnes ac effeithlon o ran ynni

Mae ymchwil gan Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi tanlinellu'r effeithiau negyddol ar iechyd sy'n gysylltiedig â chartrefi oer, ac wedi rhybuddio am y peryglon penodol sy'n digwydd pan fydd y tymheredd yn disgyn islaw 18 gradd⁴⁰. Clywodd y Grŵp Arbenigol hefyd dystiolaeth ddigalon gan National Energy Action Cymru ar dlodi tanwydd sy'n cael ei sbarduno gan yr argyfwng.⁴¹ Mae'r Grŵp felly wedi nodi'r angen brys i uwchraddio effeithlonrwydd ynni cartrefi tanwydd gwael yng Nghymru fel y gallant fod yn gynhesach, yn wyrddach, yn rhatach ac yn iachach^{42,43}.

Mae'r aelodau wedi bod yn pryderu am gynnydd araf yn y maes hwn ond yn croesawu'r cyhoeddiadau diweddar ar y Rhaglen Cartrefi Cynnes newydd ac yn benodol Rhan 1 sy'n amlinellu'r cynllun newydd sy'n cael ei arwain gan alw i gymryd lle Nyth.

Clywodd y Grŵp dystiolaeth o arolwg gan Iechyd Cyhoeddus Cymru o 2500 o drigolion a ddangosodd y byddai bron i 40% yn hoffi cael cymorth i wella effeithlonrwydd ynni gartref⁴⁴. Felly, mae aelodau'n croesawu'r cadarnhad o gefnogaeth i ôl-ffitio dyfnach ar gyfer cartrefi incwm isel, a fydd yn gwella effeithlonrwydd ynni'r cartrefi lleiaf effeithlon hynny yng Nghymru, gan gynyddu'r cap cyllideb fesul eiddo.

12. Mae'r Grŵp Arbenigol yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gweithredu'r Rhaglen Cartrefi Cynnes newydd ar frys, gan sicrhau bod y cynllun newydd sy'n cael ei arwain gan y galw yn cael ei gaffael a'i roi ar waith y gaeaf hwn.

Mae'r Grŵp yn glir mai dyma'r ffordd orau, fwyaf cynaliadwy a pharhaol o fynd i'r afael â thlodi tanwydd a bydd hefyd yn helpu i leihau allyriadau carbon tai. Yn awyddus i osgoi unrhyw oedi pellach, mae aelodau'n teimlo ei bod yn gwbl hanfodol bod y cynllun newydd ar waith cyn gynted â phosibl y gaeaf hwn.

⁴⁰ https://phwwhocc.co.uk/wp-content/uploads/2022/11/PHW-Cold-homes-lit-review-28_11_22.pdf

⁴¹ Energy Action Cymru, Cyflwyniad i Is-bwyllgor y Cabinet, Mawrth 2023

⁴² <https://www.bevanfoundation.org/wp-content/uploads/2023/05/Senedd-Housing-and-Local-Government-Committee-inquiry-into-the-Private-Rented-Sector.pdf>

⁴³ <https://business.senedd.wales/documents/s122018/FP12-%20National%20Energy%20Action%20Cymru.pdf>

⁴⁴ [Amser i Draffod Iechyd y Cyhoedd: Arolwg Recriwtio'r Panel - Canolfan Gydweithredu Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Lles \(phwwhocc.co.uk\)](https://phwwhocc.co.uk)

Mae'r aelodau hefyd yn nodi, yn seiliedig ar y lefelau presennol, y bydd y cynllun newydd ond yn gallu cynorthwyo tua 1500 o gartrefi tlawd o ran tanwydd y flwyddyn. Mae'n hanfodol felly bod y cynllun yn derbyn cymaint o gyllid â phosibl yn y blynyddoedd i ddod er mwyn iddo allu gweithredu ar raddfa uwch a bodloni lefelau'r galw.

Cadw pobl yn eu cartrefi eu hunain

Mae tystiolaeth gan Shelter Cymru yn dangos bod yr argyfwng wedi gwaethygu'r argyfwng tai, a chost tai, sydd eisoes yn ddifrifol. Mae rhestrau aros tai cymdeithasol Cymru wedi cynyddu 40% yn ystod y 4 blynedd diwethaf⁴⁵, gyda nifer y ceisiadau am gymorth gan Shelter Cymru ynghylch ôl-ddyledion rhent, lleithder ac adfail, troi allan heb fai ac, yn benodol, digartrefedd, i gyd ar lefel uchel yn ystod tri mis cyntaf 2023⁴⁶.

Roedd y Grŵp yn bryderus o glywed ymchwil gan Gomisiynydd Plant Cymru yn dangos bod hanner y plant 7-11 mlwydd oed a chwarter y bobl ifanc 12-18 mlwydd oed a holwyd yn bryderus am fod â lle i fyw ac mae'r aelodau'n nodi data diweddaraf Llywodraeth Cymru sy'n dangos cynnydd yn nifer y plant dibynnol o dan 16 mlwydd oed sy'n byw mewn llety dros dro i 3,348⁴⁷.

Nid yw'r cymorth bellach yn diwallu anghenion y cartref, gyda chyfraddau Lwfans Tai Lleol Llywodraeth y DU wedi'u rhewi ar lefelau 2020 ac felly bellach yn anghydnaws â chostau rhentu.⁴⁸⁴⁹ Unwaith eto, mae'r data'n dangos bod grwpiau incwm isel penodol yn cael eu heffeithio'n anghymesur. Mae'r Grŵp Arbenigol hefyd yn nodi na chynyddodd cyllid y Grant Cymorth Tai yn 2023/24, tra bod costau darparu'r gwasanaethau hyn wedi cynyddu o tua 10%.⁵⁰ Ynghyd â gostyngiad mewn termau real y Grant Cymorth Tai dros amser, mae hyn yn tansilio gallu darparwyr i gynorthwyo gyda'r pwysau ar lety dros dro, a lleihau hyn, ar adeg o ddigartrefedd cynyddol.

Mae'r sefyllfa i aelwydydd bregus sydd mewn llety dros dro ar hyn o bryd yn peri pryder hefyd. Erbyn mis Mai 2023 roedd nifer y bobl oedd yn gaeth yn nhagfa llety dros dro wedi cynyddu traean o'i gymharu â 2022⁵¹. Mae gan aelodau'r Grŵp

⁴⁵ [Tai: Welsh family 'may have to move to Scotland' - BBC News](#)

⁴⁶ Shelter Cymru, Cyflwyniad i Is-bwyllgor y Cabinet, Mai 2023

⁴⁷ <https://www.gov.wales/homelessness-accommodation-provision-and-rough-sleeping-may-2023>

⁴⁸ [Ymateb i'r Gyllideb 2023 | JR](#)

⁴⁹ <https://ifs.org.uk/publications/housing-quality-and-affordability-lower-income-households>

⁵⁰ <https://chcymru.org.uk/news-and-blog/housing-support-services-in-crisis-the-consequences-of-a-real-terms-budget-cut>

⁵¹ <https://www.gov.wales/homelessness-accommodation-provision-and-rough-sleeping-may-2023>

bryderon penodol ynghylch fforddiadwyedd rhai llety dros dro lle mae costau llety a thaliadau gwasanaeth yn arbennig o uchel. Mae costau ychwanegol hefyd i aelwydydd pan nad yw llety'n darparu cyfleusterau sylfaenol megis ar gyfer coginio a golchi, gan eu gorfodi i dalu am y rhain ar wahân pan fydd eu pŵer prynu cartref yn dirywio. Mae hyn i gyd yn creu heriau penodol i'r rhai mewn llety dros dro sy'n ceisio cyrchu cyfleoedd cyflogaeth a theithio i'w gweithle.

Fe wnaeth y Grŵp Arbenigol hefyd adolygu tystiolaeth ar gost digartrefedd i economi Cymru. Er enghraifft, mae troi allan i ddigartrefedd yn costio £60,000 i Gymru; tra bod rhywun sy'n gorfod cysgu ar y stryd am flwyddyn yn costio £20,000 i'r pwrs cyhoeddus.⁵² Mae'n amlwg bod cadw pobl yn eu cartref nid yn unig yn dda i iechyd a lles ond bydd hefyd yn sicrhau arbedion pwysig - mae atal digartrefedd am flwyddyn yn arwain at ostyngiad o £9,266 y pen mewn gwariant cyhoeddus.⁵³

Mae'r set ganlynol o argymhellion yn adlewyrchu dull pragmatig Buddsoddi i Arbed ar adeg pan fo tuedd barhaus ar i fyny mewn digartrefedd a phrinder llety dros dro neu sefydlog addas a fforddiadwy. Maen nhw'n cario costau ariannol a lles is na phe byddai aelwydydd yn dod yn ddigartref ac angen darpariaeth llety dros dro ac mae'r Grŵp Arbenigol yn glir eu bod yn cynrychioli'r ffordd orau o atal digartrefedd yn ystod yr argyfwng.

13. Mae'r Grŵp Arbenigol yn argymhell bod Llywodraeth y DU yn dadrewi'r Lwfans Tai Lleol fel ei fod yn cyd-fynd â rhenti'r farchnad.

14. Mae'r Grŵp Arbenigol yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cynyddu camau atal digartrefedd drwy fuddsoddi ymhellach mewn Taliadau Tai Dewisol a'r Gronfa Atal Digartrefedd Dewisol, a hyrwyddo eu defnydd.

15. Mae'r Grŵp Arbenigol yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn lleddfu pwysau ar bobl mewn llety dros dro drwy sicrhau bod cymorth costau byw perthnasol yn cael ei gynnig fel mater o drefn a'i fod yn hygyrch i aelwydydd amrywiol mewn llety dros dro a thrwy ddarparu cefnogaeth gyson wedi'i thargedu i bobl mewn llety dros dro anfforddiadwy.

⁵² Enghraifft o astudiaeth achos, Gwerthusiad Prosiect Cynhwysiant y Cymoedd, Shelter Cymru 2011 (dadansoddiad o fuddion cost gan Cordis Bright) ; 'Ar ba gost?' (Argyfwng 2015 <https://www.crisis.org.uk/ending-homelessness/homelessness-knowledge-hub/cost-of-homelessness/at-what-cost-2015/>)

⁵³ <https://phwwhocc.co.uk/resources/making-a-difference-housing-and-health-a-case-for-investment-main-report/>

Mae'r Grŵp Arbenigol yn cydnabod bod Taliadau Tai Dewisol a Chronfeydd Atal Digartref Dewisol yn chwarae rhan hanfodol wrth atal digartrefedd⁵⁴. Fodd bynnag, mae amcangyfrifon o adroddiad diweddar Sefydliad Bevan yn nodi, wrth symud ymlaen, y bydd angen buddsoddiad ychwanegol Taliadau Tai Dewisol 'atodol' o £2.4m i liniaru'r pwysau tai difrifol rydym ni'n ei wynebu.

Ar y sail hon, gellir gweithredu argymhelliad 14 trwy fuddsoddiad cyffredinol o £4m a fyddai'n cynnwys Taliadau Tai Dewisol a Chronfeydd Atal Digartref Dewisol. Dylai'r buddsoddiad hwn fod yn destun monitro chwarterol gan Lywodraeth Cymru i hyrwyddo'r defnydd o arian a ddyrannwyd i atal digartrefedd.

Bydd y buddsoddiad ychwanegol yn hanfodol er mwyn galluogi awdurdodau lleol i ymyrryd yn gynnar ac yn effeithiol er mwyn atal digartrefedd, gan fanteisio ar enghreifftiau o arfer da. Ar ben hynny, mae tystiolaeth gan Shelter Cymru yn dangos bod 1 o bob 10 o bobl mewn llety dros dro wedi cael eu heithrio o restrau aros tai cymdeithasol oherwydd Ôl-ddyledion Tenantiaid Blaenorol⁵⁵. Byddai defnyddio arian, er enghraifft, i glirio ôl ddyledion tenantiaid blaenorol yn helpu i leddfu'r pwysau ar lety dros dro yn ogystal â galluogi aelwydydd i gael mynediad i gartref diogel.

Mae potensial i hyrwyddo'r defnydd o'r cronfeydd hyn ymhellach. Rydym ni'n cynnig bod Llywodraeth Cymru yn nodi cyfleoedd i ymyrryd yn gynnar ac yn effeithiol drwy ddefnydd hyblyg o'r cronfeydd hyn i atal digartrefedd, gan roi enghreifftiau o arfer da.

Mae dwy elfen i argymhelliad 15. Mae'r cyntaf yn canolbwyntio ar Lywodraeth Cymru gan sicrhau bod aelwydydd mewn llety dros dro - sy'n cynnwys aelwydydd ar incwm isel, pobl anabl a phlant er enghraifft - yn cael eu hystyried yn weithredol wrth ddylunio, gweithredu a hyrwyddo ymatebion cenedlaethol a lleol i'r argyfwng.

Gellir gweithredu ail ran Argymhelliad 15 trwy baratoi canllawiau ar fforddiadwyedd llety dros dro. Bydd hyn yn galluogi awdurdodau lleol i nodi'r problemau a'r costau mae aelwydydd amrywiol yn eu hwynebu wrth ystyried lleoliadau llety dros dro, fel llety a chostau gwasanaeth mewn perthynas ag incwm y cartref. Bydd hefyd yn helpu i nodi unrhyw ganlyniadau anfwriadol posibl lleoliadau llety dros dro (megis atal mynediad at waith, addysg a chymorth

⁵⁴ <https://www.bevanfoundation.org/wp-content/uploads/2023/06/Discretionary-Housing-Payments-and-the-Welsh-Housing-Market-June-2023-1.pdf>

⁵⁵ Shelter Cymru, Cyflwyniad i Is-bwyllgor y Cabinet Mai 2023.

hanfodol). At hynny, mae angen sylw arbennig i'r rhai mewn llety dros dro anfforddiadwy; dylai Llywodraeth Cymru adeiladu ar arferion da awdurdodau lleol sy'n darparu cymorth ariannol i aelwydydd sy'n wynebu costau ychwanegol, oherwydd diffyg cyfleusterau coginio a golchi er enghraifft, ac ymgorffori hyn mewn canllawiau fforddiadwyedd.

2.3 Cefnogi gwydnwch emosiynol

Gwirio Cymorth Iechyd Meddwl a Lles

Mae'r argyfwng wedi cael effaith sylweddol ar iechyd meddwl a lles, ac mae effeithiau negyddol ar draws ystod o grwpiau agored i niwed yn glir i'w gweld⁵⁶. Mae arolwg gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn dangos bod 44% o'r ymatebwyr wedi dweud bod eu hiechyd meddwl wedi cael ei effeithio'n negyddol gan gostau byw cynyddol, gyda 27% yn nodi gofid a phryder sylweddol.⁵⁷ Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno cyfres o fentrau iechyd meddwl a lles mae aelodau o'r Grŵp Arbenigol yn eu croesawu. Fodd bynnag, mae angen gwirio p'un a yw'r mentrau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar yr aelwydydd incwm isaf.

16. Mae'r Grŵp Arbenigol yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn asesu effeithiolrwydd cynnar mentrau iechyd meddwl diweddar a'u heffaith ar grwpiau incwm isel.

Gellir gweithredu'r argymhelliad hwn trwy gydweithio â sefydliadau i adolygu'r nifer sy'n manteisio ar y mentrau ac effaith ymyriadau, megis Llinell Gymorth Iechyd Meddwl newydd Cymru. Byddai hyn yn golygu cynnal dadansoddiad cymharol ar gyfer y boblogaeth gyfan yn erbyn y rhai ar incwm isel a gallai gynnwys ymgorffori cwestiynau penodol o fewn arolygon costau byw.

Bydd y gwaith pwysig hwn yn helpu i benderfynu p'un a yw pobl sydd mewn dyled, sydd mewn perygl o golli eu cartref neu sy'n ddigartref, yn cael cymorth iechyd meddwl priodol ac, os na, yn galluogi sefydliadau i weithredu i fynd i'r afael â hyn.

Cydnabyddiaeth am ein gwasanaethau cyngor a chymorth

Mae tystiolaeth yn dangos y straen difrifol mae gwasanaethau cyngor a chymorth wedi'i brofi oherwydd y galw digynsail am eu gwasanaethau yn ystod yr argyfwng, sydd wedi dilyn pandemig COVID-19. Mae'r pwysau ychwanegol hwn wedi dod yn

⁵⁶ <https://www.bevanfoundation.org/wp-content/uploads/2023/02/Snapshot-of-poverty-in-winter-2023.pdf>

⁵⁷ Arolwg Iechyd Cyhoeddus Cymru Tachwedd 22-Chwefror 23, Ebrill 2023 (heb ei gyhoeddi eto).

ychwanegol at yr angen i fodloni dewisiadau ar gyfer cymorth ar-lein ac yn bersonol.

Mae'r Grŵp yn cytuno ei bod yn hanfodol mynd i'r afael â thelerau ac amodau a threfniadau ariannu ar gyfer sefydliadau cyngor a chymorth (gweler Adran 4). Fodd bynnag, mae angen cydnabod a diolch yn gyhoeddus i weithwyr a gwirfoddolwyr yn y sefydliadau hynny am eu cyfraniadau yn ystod yr argyfwng.

17. Mae'r Grŵp Arbenigol yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru a'r DU roi cydnabyddiaeth gyhoeddus ddyledus i'r ymatebwyr cyntaf i'r argyfwng Costau Byw, gan gydnabod cyfraniad gwasanaethau cymorth a chyngor, eu gweithwyr a'u gwirfoddolwyr.

Gellir gweithredu'r argymhelliad hwn trwy weithio ar y cyd â sefydliadau'r trydydd sector ac undebau llafur i gytuno sut fyddai cydnabyddiaeth yn edrych a sicrhau ei fod yn ystyrlon.

3. Camau gweithredu i'w cymryd rhwng Ebrill 24 a Ebrill 26

3.1 Manteisio i'r eithaf ar y cymorth a'r ddarpariaeth bresennol

Lleihau Cymhlethdod

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu amrywiaeth o fudd-daliadau, grantiau a lwfansau hanfodol sydd gyda'i gilydd â'r potensial i ddarparu £4000 o gymorth i aelwydydd y flwyddyn. Fodd bynnag, mae gan y gwahanol raglenni cymorth hyn brosesau ymgeisio ar wahân a meini prawf cymhwysedd gwahanol sydd wedi arwain at system gymhleth a drslyd i aelwydydd ei llywio⁵⁸⁵⁹. Mae hyn yn cyfrannu at brosesu gweinyddol aneffeithlon ac mae'n ychwanegu at y llwyth gwaith meddwl a'r straen mae aelwydydd bregus yn eu hwynebu wrth geisio cymorth⁶⁰.

⁵⁸https://www.audit.wales/sites/default/files/publications/Time_for_%20Change_%20Poverty_English.pdf

⁵⁹<https://publications.parliament.uk/pa/cm5802/cmselect/cmwelaf/337/report.html#heading-4>

⁶⁰<https://www.bevanfoundation.org/resources/welsh-benefits-feasibility/>

Mae adroddiad a gomisiynwyd yn ddiweddar gan Policy in Practice (2023) yn darparu cyfres o argymhellion a map llwybr ar gyfer gweithredu System Budd-daliadau symlach yng Nghymru. Cyn symud ymlaen at ei roi ar waith yn llawn, mae'r Grŵp Arbenigol wedi nodi y gellir cymryd rhai camau pwysig yn y tymor byr canolig a fyddai'n gwella lefelau manteisio, yn symleiddio gweinyddiaeth ac yn lleddfu'r straen sy'n gysylltiedig â gwneud cais am grantiau a lwfansau.

18. Mae'r Grŵp Arbenigol yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cymryd y camau nesaf tuag at System Budd-daliadau Cymru drwy gyflwyno dulliau cyffredin o gymhwyso, ymgeisio a gwirio tystiolaeth.

Gellir gweithredu'r argymhelliad hwn drwy weithio gydag awdurdodau lleol a chyrff eraill i ganolbwyntio ar y canlynol:

1. Targedu ac asesu cymhwysedd;
2. Y broses ymgeisio (gan gynnwys dylunio ffurf a chydysniad i ddefnyddio data ar gyfer grantiau a lwfansau eraill);
3. Ceisiadau am Ostyngiad yn y Dreth Gyngor, gan gynnwys derbyn cais Credyd Cynhwysol fel cais CTR (drwy ddiwygio rheoliadau CTR);
4. Gwirio tystiolaeth.

3.2 Sicrhau bod gan aelwydydd incwm isel 'yr hanfodion'

Darparu cymorth gyda biliau cartref

Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'r Grŵp Arbenigol yn pryderu'n benodol am aelwydydd incwm isel sydd ychydig y tu allan i ofynion cymhwysedd sy'n golygu na allant gael eu cynorthwyo gan y budd-daliadau, grantiau a lwfansau arferol. Mae'r cartrefi hyn *hefyd* yn wynebu sefyllfa gyllidebu negyddol lle mae eu costau cynyddol yn mynd y tu hwnt i incwm eu cartref ac maen nhw'n syrthio'n ddyfnach i ddyled o ganlyniad. Fel mae tystiolaeth Cyngor ar Bopeth Cymru yn ddangos, mae canran uwch o gleientiaid dyledion sy'n derbyn budd-daliadau *a'r* rhai nad ydynt yn derbyn budd-daliadau yn byw ar gyllidebau negyddol. Fodd bynnag, rydym ni wedi gweld cynnydd cyfrannol mwy ymhlith y grŵp olaf.

Mae'r sefyllfa hon yn cyflwyno heriau difrifol i'r aelwydydd hynny ond hefyd i'n gwasanaethau cyhoeddus gan y bydd angen cymorth i'r teuluoedd hynny nawr ac yn y dyfodol. Mae'r Grŵp Arbenigol o'r farn y gallai addasiadau i'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor sicrhau nifer o fanteision yn y senario hwn.

Byddai lleihau'r tapr enillion o 20% i 10% yn darparu bron i 27,000 o aelwydydd nad ydynt ar hyn o bryd yn bodloni gofynion cymhwysedd gyda hyd at £312 ychwanegol y flwyddyn mewn rhyddhad ychwanegol, tra byddai'r gost amcangyfrifedig ar gyfer aelwydydd oedran gweithio ac oedran pensiwn oddeutu £8m y flwyddyn⁶¹. Gallai'r argymhelliad hwn gael ei ariannu fel rhan o'r pecyn ehangach o ddiwygiadau'r Dreth Gyngor a gynlluniwyd ar gyfer Ebrill 2025 a chael ei roi ar waith trwy weithio gydag awdurdodau lleol a chyrff eraill i gyflawni'r addasiadau gofynnol, gan hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r cynllun hefyd.

19. Mae'r Grŵp Arbenigol yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gweithredu diwygiad dros dro i Ostyngiad y Dreth Gyngor yn 24/25 drwy leihau'r tapr enillion o 20% i 10%

Yn ogystal ag addasu'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, mae'r Grŵp Arbenigol yn awyddus i sicrhau bod prisiau cynyddol yn cael eu hadlewyrchu yn y budd-daliadau, y grantiau a'r lwfansau amrywiol sydd ar gael i aelwydydd⁶²⁶³. Mae'r Grŵp yn croesawu addasiadau diweddar i gyfraddau ar gyfer y Lwfans Cynhaliath Addysg a'r Gronfa Cymorth Dewisol ac mae'n awyddus i weld bod ystod lawn o grantiau, budd-daliadau a lwfansau yn cael eu huwchraddio'n rheolaidd i gyd-fynd â chwyddiant.

Y camau cyntaf yma fyddai dechrau uwchraddio grantiau a lwfansau blaenoriaeth fel Grant Dysgu Llywodraeth Cymru, a'r Grant Hanfodion Ysgol.

Mae potensial hefyd i leddfu pwysau drwy addasu lefel y didyniadau o fudd-daliadau sy'n deillio o ad-daliadau dyled i'r Llywodraeth neu sy'n cael eu gwneud o ganlyniad i'r cap budd-daliadau.⁶⁴ Mae ymchwil gan Gyngor ar Bopeth Cymru yn dangos bod lefel bresennol y didyniad yn rhoi aelwydydd incwm isel mewn mwy o berygl, gan eu gorfodi i sefyllfa o argyfwng.⁶⁵ Mae'r rhan fwyaf o'r didyniadau hyn yn cael eu gwneud i adennill dyled sy'n ddyledus i'r Adran Gwaith a Phensiynau.

⁶¹ <https://www.gov.wales/written-statement-understanding-impact-universal-credit-council-tax-reduction-scheme-and-rent-0>

⁶² <https://www.jrf.org.uk/report/unable-escape-persistent-hardship-jrfs-cost-living-tracker-summer-2023>

⁶³ <https://www.bevanfoundation.org/resources/easing-the-cost-of-living-crisis-this-winter/>

⁶⁴ ⁶⁴ <https://www.jrf.org.uk/report/unable-escape-persistent-hardship-jrfs-cost-living-tracker-summer-2023>

⁶⁵ <https://www.citizensadvice.org.uk/about-us/our-work/policy/policy-research-topics/welfare-policy-research-surveys-and-consultation-responses/welfare-policy-research/the-welfare-debt-trap-adjusting-the-level-and-priority-of-deductions-from-benefits-to-prevent-hardship/>

20. Mae'r Grŵp Arbenigol yn argymhell bod Llywodraeth y DU a Chymru yn gweithredu cynnydd blynyddol o fudd-daliadau a grantiau a lwfansau datganoledig ar gyfer 24/25 a 25/26 yn unol â chwyddiant.

21. Mae'r Grŵp Arbenigol yn argymhell bod Llywodraeth y DU yn lleihau didyniadau o fudd-daliadau o 25% i 10% yn 24/25.

3.3 Cefnogi gwydnwch emosiynol

Mae ymchwil yn dangos na all pobl ifanc fforddio teithio i gwrrd â ffrindiau a theulu oherwydd costau cynyddol a bod hyn yn cael effaith negyddol sylweddol ar iechyd meddwl.⁶⁶ Mae tystiolaeth gan Gomisiynydd Plant Cymru yn dangos bod teithio am ddim ymhlith y 5 uchaf mae pobl ifanc yn 'gofyn amdano', gyda nifer arbennig o uchel yn gofyn am hyn o'r grŵp oedran 12-18 mlwydd oed.⁶⁷

22. Mae'r Grŵp Arbenigol yn argymhell bod Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn treialu teithiau bws am ddim i bobl ifanc drwy gyflwyno teithio am ddim i bobl dan 16 mlwydd oed yn 24/25 am gyfnod prawf.

23. Mae'r Grŵp Arbenigol yn argymhell bod Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn cymryd rhan mewn marchnata mwy gweithredol ar gyfer MyTravelPass i bobl ifanc 16–24 mlwydd oed nawr, cyn cyflwyno teithiau bws am ddim i bobl ifanc 16-18 mlwydd oed yn 25/26.

Gellir rhoi'r argymhelliad hwn ar waith drwy ddysgu o brofiadau yn Llundain, yr Alban a Rhondda Cynon Taf a gweithredu teithio am ddim ar fysiau ledled Cymru am gyfnod prawf penodol. Mae Rhondda Cynon Taf yn amcangyfrif cost gyffredinol o £500,000 y mis ar gyfer teithio ar fysiau am ddim, sy'n cyfateb i £6m y flwyddyn i'r boblogaeth gyfan o fewn RhCT⁶⁸.

3.4 Dysgu, gwerthuso ac alinio

Mae'r Grŵp Arbenigol yn cydnabod bod angen cyflwyno ymyriadau yn gyflym yn aml sy'n golygu nad oes llawer o amser i weithredu camau gwerthuso prosesau neu ganlyniadau. Mae hwn yn gyfle a gollwyd gan y gall helpu i sefydlu pa ddulliau gweithredu sy'n gweithio fwyaf effeithiol.

⁶⁶ <https://www.bevanfoundation.org/wp-content/uploads/2023/02/Snapshot-of-poverty-in-winter-2023.pdf>

⁶⁷ Comisiynydd Plant Cymru, Cyflwyniad i Is-bwyllgor y Cabinet, Mai 2023

⁶⁸ Dylid nodi bod y teithio hwn wedi'i gyfyngu i deithiau o fewn Rhondda Cynon Taf.

Mae'r gwerthusiad o effeithiolrwydd o ran canlyniadau polisi yn hanfodol ac mae'n arbennig o bwysig asesu effaith ar yr aelwydydd incwm isel bregus mae polisiau wedi'u cynllunio i'w cefnogi. Drwy ymgysylltu ag aelwydydd sy'n derbyn cymorth a staff a gwirfoddolwyr o wasanaethau cyngor a chymorth, gallai Llywodraeth Cymru ddatblygu dull dau gam effeithiol i hwyluso gwerthuso prosesau a chanlyniadau.

Mae cyfle pellach yma i wreiddio ac ymgorffori ymyriadau Yr argyfwng mewn ffrydiau gwaith sydd eisoes ar y gweill yn Llywodraeth Cymru. Un enghraifft amlwg fyddai'r Strategaeth Tlodi Plant, sydd allan ar gyfer ymgynghori ar hyn o bryd, lle mae cyfle i alinio nifer o'n hargymhellion fel y rhai ar FSM a Bwyd a Hwyl. Byddai alinio o'r math hwn hefyd yn galluogi Llywodraeth Cymru i ymgorffori set o dargedau, amserlenni a chamau gweithredu clir y gellir eu cyflawni yn y strategaeth, sy'n gysylltiedig â chyllid penodol.

24. Mae'r Grŵp Arbenigol yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn annog system ar gyfer gwerthuso effaith mentrau polisi costau byw ar aelwydydd incwm isel.

25. Mae'r Grŵp Arbenigol yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn alinio mentrau Yr argyfwng â mentrau gwrthdlodi strategol eraill, megis y Strategaeth Tlodi Plant, a allai ategu pwysigrwydd cyflawni canlyniadau trwy gamau gweithredu clir a chyflawniadau penodedig.

4. Camau gweithredu i'w cymryd o fis Mai 2026 ymlaen

4.1 Trawsnewid gwydnwch ariannol

Mae'r Grŵp Arbenigol yn cytuno bod amodau economaidd-gymdeithasol sy'n bodoli eisoes wedi gwaethygu effaith yr argyfwng yng Nghymru, gan arwain at amlygiad eithriadol i'w effeithiau⁶⁹. Felly, ar wahân i gyflwyno mesurau tymor byr, mae'n amlwg bod angen blaenoriaethu buddsoddiad yn y tymor hwy i gryfhau gwydnwch ariannol trwy fynd i'r afael ag achosion sylfaenol tlodi fel ei bod yn bosibl lliniaru bregusrwydd Cymru i siociau ariannol yn y dyfodol.

Mae'r Grŵp yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ofyn am adnoddau ychwanegol, a'u defnyddio, er mwyn gwella amodau economaidd-gymdeithasol sylfaenol yng Nghymru a fydd yn helpu i gryfhau ein gwydnwch ariannol yn y dyfodol.

⁶⁹ <https://www.bevanfoundation.org/wp-content/uploads/2023/02/Snapshot-of-poverty-in-winter-2023.pdf>

26. Mae'r Grŵp Arbenigol yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn defnyddio adnoddau ychwanegol yn nhymor nesaf y Senedd i gyflawni buddsoddiadau polisi â blaenoriaeth a fydd yn helpu i leihau tlodi a gwella diogelwch ariannol ledled Cymru.

Gellir gweithredu'r argymhelliad hwn trwy flaenoriaethu polisiau allweddol:

- Ymwreiddio egwyddorion deddfwriaeth Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus, hyrwyddo gwaith, cyflog ac amodau teg ledled Cymru ac adolygu'r rhagolygon ar gyfer gwarant incwm isaf i Gymru.
- Darparu gwell trafndiaeth gyhoeddus, drwy ail-gydbwysu cyllid i gefnogi bysiau a sybsideiddio'r galw yn hytrach na'r cyflenwad.
- Sicrhau mwy o ddarpariaeth cartrefi cymdeithasol y gall pobl eu fforddio, a mynediad atynt.
- Parhau i leihau anghydraddoldebau drwy fuddsoddi mewn darpariaeth addysg blynnyddoedd cynnar tra'n cynyddu darpariaeth gofal plant o ansawdd da ⁷⁰⁷¹(gan nodi tystiolaeth o Loegr ar fuddiolwyr tebygol cyflwyno'r gofal plant diweddaraf).⁷²
- Buddsoddi mewn camau gweithredu i gynyddu presenoldeb a hwyluso dysgu dal i fyny ar gyfer disgyblion incwm isel, yn ogystal â darparu addysg llythrennedd ariannol ychwanegol.
- Diwygio trethi datganoledig gan gynnwys:
 - Cynyddu treth incwm gyda phŵer i amrywio bandiau;
 - Adeiladu ar ddiwygiadau'r Dreth Gyngor 2025 i ddatblygu cynnydd tra'n codi refeniw.
- Cryfhau system nawdd cymdeithasol y Deyrnas Unedig drwy'r canlynol:
 - Cefnogi galwadau, fel rhai gan Ymddiriedolaeth Trussell a Sefydliad Joseph Rowntree⁷³⁷⁴ i sicrhau bod budd-daliadau ledled y DU yn ddigonol ar gyfer hanfodion bob dydd;
 - Ceisio pwerau i ddatganoli elfennau o'r system nawdd cymdeithasol gan gynnwys gosod cyfraddau Lwfans Tai Lleol.

Mae profiad yn dangos bod ymdrechion i drawsnewid gwydnwch ariannol Cymru drwy fynd i'r afael ag achosion tlodi yn debygol o gael eu rhwystro gan weithio seiliedig ar seilo, rhaniadau polisi a meddwl tymor byr⁷⁵. Byddai pwyslais gadarn ac

⁷⁰ Melanie Jones, Cyflwyniad i Is-bwyllgor y Cabinet Mai 2023.

⁷¹ Un opsiwn yma fyddai darparu 16 awr o ofal am ddim i bob plentyn 1-4 mlwydd oed, gydag oriau ychwanegol yn cael eu talu gan rieni ar raddfa symudol.

⁷² Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid, Cyflwyniad i Is-Bwyllgor y Cabinet Mai 2023

⁷³ Ymddiriedolaeth Trussell, Cyflwyniad i Is-bwyllgor y Cabinet, Mai 2023.

⁷⁴ <https://ifs.org.uk/news/lump-sum-cost-living-payments-poorly-designed-alleviate-deprivation>

⁷⁵ <https://www.audit.wales/sites/default/files/publications/Time for %20Change %20Poverty English.pdf>

o'r newydd ar gyflawni Nodau Llesiant Cymru a dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar genedlaethau'r dyfodol, cyfannol, cydweithredol, hirdymor ac yn seiliedig ar hawliau o ran datblygu a chyflawni polisi, yn helpu i ganolbwyntio meddyliau a chyflymu cynnydd fel y gallwn liniaru ein sefyllfa fregus mewn Yr argyfwng yn y dyfodol.

27. Mae'r Grŵp Arbenigol yn argymhell bod Llywodraeth Cymru, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru yn arwain ymdrechion o'r newydd i hyrwyddo, atgyfnerthu ac ymgorffori ffyrdd Cenedlaethau'r Dyfodol o weithio i gefnogi gwydnwch ariannol yn nhymor nesaf y Senedd.

Mae meddwl tymor byr braidd yn anochel pan mae Llywodraethau'n cael eu gorfodi i wneud penderfyniadau ariannol ar sail un flwyddyn. Dywed Archwilio Cymru fod mentrau gwrthdodi sy'n dibynnu ar ariannu tymor byr a phrosiectau cyfnod penodol yn aml yn methu â sicrhau canlyniadau cynaliadwy⁷⁶⁷⁷. Mae'r angen parhaus i adnewyddu ceisiadau am gyllid yn dreth ar adnoddau dynol ac ariannol.

Yn bwysig, mae cyllid tymor byr neu gyllid annigonol hefyd yn rhwystro ymdrechion sefydliadol i recriwtio a chadw staff gyda'r sgiliau gofynnol ac, yn enwedig yn y trydydd sector, i ddarparu tâl, telerau ac amodau sy'n ddigon deniadol i staff sydd hefyd yn cael eu heffeithio gan yr argyfwng. Mae hyn wedi bod yn wir am wasanaethau cyngor a chymorth lle mae'r trefniadau ariannu presennol yn creu ansicrwydd i sefydliadau, eu staff a'u gwirfoddolwyr. Mae ymchwil yn dangos bod gweithwyr yn y sefydliadau hyn yn ei chael hi'n anodd cael dau ben llinyn ynghyd eu hunain. Er enghraifft, pan arolygwyd 650 o weithwyr digartrefedd a chymorth tai y gaeaf diwethaf, nid oedd 79% yn rhoi'r gwres ymlaen, roedd bron i hanner yn cael trafferth gyda'u biliau, tra bod 10% yn cael trafferth gyda'u rhent eu hunain ac roedd 7% arall mewn perygl o ddod yn ddigartref⁷⁸.

Pan fydd adnoddau'n caniatáu, dylai Llywodraeth Cymru gymhwyso darpariaethau Cyfnodau Hirach o Gyllid a Meincnodi ar gyfer Grantiau i symud i system o gyllid tair blynedd dreigl yn nhymor nesaf y Senedd.

⁷⁶ Iechyd Cyhoeddus Cymru, Uwchgyhadledd Adeiladu Cymru Iachach 2023

⁷⁷ https://www.audit.wales/sites/default/files/publications/Time_for_%20Change_%20Poverty_English.pdf

⁷⁸ https://www.cymorthcymru.org.uk/wp-content/uploads/2023/06/Struggles_from_the_Frontline_-_Eng.pdf

28. Mae'r Grŵp Arbenigol yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn defnyddio adnoddau ychwanegol i symud at fodel ariannu treigl tair blynedd a chreu system fwy gwydn o wasanaethau cyngor a chymorth.

Yn olaf, o ran gwydnwch ariannol, mae'r Grŵp Arbenigol yn ymwybodol o'r angen i sicrhau ein bod ni'n manteisio i'r eithaf ar bob ymyriad polisi gyda'r nod o leihau pwysau costau byw a lliniaru tlodi.

Gallai dull cyfunol sy'n dod â phersbectif Buddsoddi i Arbed ynghyd â phwyslais ar *Enillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad* alluogi blaenoriaethu ymyriadau polisi sy'n sicrhau canlyniadau cynaliadwy ar gyfer yr aelwydydd incwm isaf⁷⁹.

29. Mae'r Grŵp Arbenigol yn argymhell, yn nhymor nesaf y Senedd, fod Llywodraeth Cymru yn gweithredu'n systematig ac yn hyrwyddo dulliau Buddsoddi i Arbed ac Enillion Cymdeithasol ar Fuddsoddi er mwyn meithrin gwydnwch ariannol, lleihau tlodi a darparu arbedion i'r pwrs cyhoeddus.

Mae enghreifftiau eglurhaol yn Atodiad C sy'n canolbwyntio ar yr *Hawl i Dai Digonol* a *Chynyddu Gwerth Maethol Prydau Ysgol* yn dangos ffyrdd y gellid gweithredu'r argymhelliad hwn a'r mathau o fuddion y gellir eu cyflawni o ganlyniad.

⁷⁹https://www.audit.wales/sites/default/files/publications/Time_for_%20Change_%20Poverty_English.pdf

Atodiad A Aelodau'r Grŵp Arbenigol

Victoria Winckler	Sefydliad Bevan
Rachel Ashworth	Ysgol Busnes Caerdydd (Cadeirydd)
Huw Dixon	Ysgol Busnes Caerdydd
Melanie Jones	Ysgol Busnes Caerdydd
Max Munday	Ysgol Busnes Caerdydd
Rocio Cifuentes	Comisiynydd Plant Cymru
Tom Lee	Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant
Luke Young	Cyngor ar Bopeth Cymru
Leighton Jenkins	CBI Cymru
David Phillips*	Sefydliad Astudiaethau Cyllid
Chris Birt	Sefydliad Joseph Rowntree
Ben Saltmarsh	Gweithredu Ynni Cenedlaethol Cymru
Sumina Azam	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Adam Corlett	Resolution Foundation
Ruth Power	Shelter Cymru
Guto Ifan	Canolfan Llywodraethiant Cymru
Leah Whitty/Lisa Hayward	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Shavanah Taj	TUC Cymru

**Mae David wedi bod yn aelod pwysig o'r grŵp hwn, gan wneud cyfraniad sylweddol. Mae'r IFS yn sefydliad amhleidiol ac annibynnol nad yw'n cymryd unrhyw safbwynt ar faint neu raddau'r aiddosbarthu a wneir gan y wladwriaeth. O'r herwydd, nid yw David na'r IFS mewn sefyllfa i gymeradwyo'r argymhellion hyn, er, nid yw hyn i awgrymu bod naill ai David na'r IFS yn anghytuno'n benodol ag unrhyw un o'r argymhellion chwaith.*

Atodiad B Amcangyfrif o gost Taliadau Costau Byw Cymru

	Nifer	Cost taliad o £150 y cartref (£m)	Cost taliad o £300 y cartref (£m)
Cartrefi gyda 3+ o blant	23,874	3.58	7.16
Teuluoedd gydag 1-2 o blant	85,276	12.79	25.58
Aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol a PIP/DLA	55,776	8.37	16.7

Nodiadau

Mae taliad o £300 yn cyfateb i 12 wythnos ar £25 yr wythnos⁸⁰.

Mae taliad o £150 yn cyfateb i 12 wythnos ar £12.50 yr wythnos.

Nifer yr aelwydydd ym mis Chwefror 2023, rhwng 0 a 19 mlwydd oed, yn deillio o Stat-Xplore.

⁸⁰ Mae'r costau hyn yn seiliedig ar lefel taliad Plant yr Alban (£25 y plentyn) ond gellid mabwysiadu cyfraddau allanol eraill fel cyfradd Credyd Cynhwysol o £269.58 y mis fesul plentyn neu gyfraddau Budd-dal Plant sy'n £24 yr wythnos ar gyfer plentyn cyntaf a £15.90 ar gyfer plant wedi hynny.

Atodiad C Enghreifftiau Darluniadol Buddsoddi i Arbed

Hawl i Dai Digonol

Byddai cyflwyno hawl i dai digonol (RTAH) yn rhoi'r pwysigrwydd o gael cartref da wrth wraidd ymdrechion i hybu iechyd a lles pobl, cymunedau ac economi Cymru nawr ac yn y dyfodol. Mae'n cynrychioli ymrwymiad i weithredu parhaus i ddod â'r argyfwng tai i ben yn raddol. Byddai'n gofyn am strategaeth benodol i alinio cyflenwad tai, ar draws deiliadaethau, ag anghenion pobl amrywiol Cymru dros gyfnod diffiniedig ac yn y modd hwn byddai'n sbarduno newid sylweddol yn ymateb Llywodraeth Cymru i'r argyfwng tai sy'n dyfnhau. Bydd gwireddu'r hawl yn raddol yn hybu gwydnwch unigolion a chymunedau.

Byddai hefyd yn arbed costau sylweddol i bwrs cyhoeddus Cymru yn y tymor hwy. Mae'r [achos ariannol dros fuddsoddi](#) wedi'i wneud yn annibynnol, gyda buddion trawsadrannol yn cael eu cyfrifo'n geidwadol gan Alma Economics ar £11.5bn, yn erbyn costau o £5bn - mae hyn yn cynrychioli elw o £2.30 am bob £1 a fuddsoddwyd dros 30 mlynedd.

Cynyddu Gwerth Maethol Prydau Ysgol

Mae'r achos dros Brydau Ysgol am Ddim wedi'i wneud yn dda, ond dadleuodd hefyd y dylem barhau i gynyddu'r gwariant ar brydau ysgol ar gyfer pob disgybl fel y gallwn ni wella ansawdd a gwerth maethol a darparu manteision iechyd a lles ehangach. Dangoswyd bod y math hwn o fuddsoddiad yn sicrhau arbedion ehangach i'r llywodraeth yn y tymor hir.

Er enghraifft, cyflwynodd Cyngor Dwyrain Swydd Ayr fenter [Bwyd am Oes](#) a oedd yn darparu prydau ysgolion cynradd yn seiliedig ar gynhwysion iach, heb eu prosesu, oedd yn lleol ac organig. Roedd y fenter yn weithredol mewn 26 ysgol erbyn 2007/8 gyda buddsoddiad cychwynnol o 12.9 ceiniog ychwanegol y pryd (£70,838). Amcangyfrifir bod y fenter wedi creu dros £500,000 o werth i randdeiliaid. Sgoriodd 6.19 ar y Mynegai Enillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad, sy'n golygu, am bob £1 ychwanegol a fuddsoddwyd, crëwyd £6 ychwanegol o werth – cyfradd enillion a oedd yn darparu buddion amlwg ar draws canlyniadau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Roedd y buddion yn cynnwys gostyngiad yng nghyfran y plant â BMI y tu allan i ystod iach (gan arbed costau trin cyflyrau sy'n gysylltiedig â gordewdra o £62,104) a gostyngiad i gyflyrau iechyd a allai fod yn niweidiol yn y dyfodol fel canser, clefyd coronaidd y galon a strôc (gan ddarparu arbedion o £7, 127, £2, 496 a £3,352 yn y drefn honno).

Atodiad D Crynodeb o Argymhellion

Medi 2023-Mawrth 2024

1.	Mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i wella lefel y nifer sy'n manteisio ar grantiau, lwfansau a chymorth budd-daliadau sydd eisoes ar gael i aelwydydd.
2.	Mae Llywodraeth y DU yn sefydlu ymchwiliad gan yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd i ymchwilio i gynnydd mewn taliadau dŵr a phrisio rhyngryd a data.
3.	Mae Llywodraeth Cymru a'r DU yn annog cwmnïau cyfleustodau i gymryd rhan mewn ymgyrchoedd hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth mwy rhagweithiol ar gyfer tariffau cymdeithasol a dangos gwell defnydd o'r tariffau hyn.
4.	Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio ei phwerau i gynnwll sefydliadau partner a chymryd rhan mewn her adeiladol ar gynnydd sy'n cael ei wneud ar bolisiau sy'n gysylltiedig â Chostau Byw i gyflymu gweithredu cydlynol.
5.	Mae Llywodraeth Cymru yn casglu ac yn cyhoeddi data a gwybodaeth ychwanegol sy'n berthnasol i'r Argyfwng Costau Byw er mwyn monitro cynnydd a chydymffurfiaeth.

Sicrhau bod gan aelwydydd incwm isel 'yr hanfodion'

6.	Mae Llywodraeth Cymru yn cyflwyno Taliad Costau Byw Plant ar sail rhandaliad ar gyfer aelwydydd incwm isel gyda phlant.
7.	Mae Llywodraeth Cymru yn cyflwyno Taliad Costau Byw Person Anabl ar sail rhandaliad ar gyfer aelwydydd â pherson anabl.
8.	Mae Llywodraeth y DU yn gweithio gyda darparwyr ynni, grwpiau defnyddwyr ac elusennau i gynllunio ar gyfer cyflwyno tariff cymdeithasol newydd i gefnogi aelwydydd incwm isel gyda'u biliau ynni y gaeaf nesaf, yn ogystal â'r canlynol: b) adolygu goblygiadau datblygiadau diweddar, megis y Cod Ymarfer newydd ar PPM Anwirfoddol; c) gofyn am ostyngiad yn y premiwm ar gredyd safonol; d) camau cynllunio ar wahaniaethau costau rhanbarthol.
9.	Mae Llywodraeth Cymru yn ymestyn darpariaeth prydau ysgol am ddim i Flwyddyn 7-11 i'r aelwydydd hynny sy'n derbyn Credyd Cynhwysol, heb gap ar enillion.
10.	Mae Llywodraeth Cymru yn ymestyn cyrhaeddiad y rhaglen 'Bwyd a Hwyl' fel ei bod yn blaenoriaethu teuluoedd incwm isel ac yn rhedeg ar draws

	pob un o'r 22 awdurdod lleol yn ystod holl gyfnodau gwyliau'r ysgol yn yr Hydref, y Gaeaf a thu hwnt.
11.	Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi ac yn annog rhaglenni sy'n seiliedig ar weithgareddau lleol i oedolion sy'n darparu cymorth gyda chostau a manteision iechyd a lles.
12.	Mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu'r Rhaglen Cartrefi Cynnes newydd ar frys, gan sicrhau bod y cynllun newydd sy'n cael ei arwain gan y galw yn cael ei gaffael a'i roi ar waith y gaeaf hwn.
13.	Mae Llywodraeth y DU yn dadrewi'r Lwfans Tai Lleol fel ei bod yn cyd-fynd â rhenti'r farchnad.
14.	Mae Llywodraeth Cymru yn cynyddu camau atal digartrefedd drwy hyrwyddo a buddsoddi ymhellach mewn Taliadau Tai Dewisol a'r Gronfa Atal Digartrefedd Dewisol.
15.	Mae Llywodraeth Cymru yn lleddfu pwysau ar bobl mewn llety dros dro drwy sicrhau bod cymorth costau byw perthnasol yn cael ei gynnig fel mater o drefn a'i fod yn hygyrch i aelwydydd amrywiol mewn llety dros dro a thrwy ddarparu cefnogaeth gyson wedi'i thargedu i bobl mewn llety dros dro anfforddiadwy.

Cefnogi gwydnwch emosiynol

16.	Mae Llywodraeth Cymru yn asesu effeithiolrwydd cynnar mentrau iechyd meddwl diweddar a'u heffaith ar grwpiau incwm isel.
17.	Mae Llywodraeth Cymru a'r DU roi cydnabyddiaeth gyhoeddus ddyledus i'r ymatebwyr cyntaf i'r argyfwng Costau Byw, gan gydnabod cyfraniad gwasanaethau cymorth a chynghor, eu gweithwyr a'u gwirfoddolwyr.

Mawrth 2024-Ebrill 2026

Manteisio i'r eithaf ar y cymorth a'r ddarpariaeth bresennol

18.	Mae Llywodraeth Cymru yn cymryd y camau nesaf tuag at System Budd-daliadau Cymru drwy gyflwyno dulliau cyffredin o gymhwyso, ymgeisio a gwirio tystiolaeth.
-----	---

Darparu cymorth gyda biliau cartref

19.	MAe Llywodraeth Cymru yn gweithredu diwygiad dros dro o Ostyngiad y Dreth Gyngor yn 24/25 drwy leihau'r tapr enillion o 20% i 10%
-----	---

20.	Mae Llywodraeth y DU a Chymru yn gweithredu cynnydd blynyddol o fudd-daliadau a grantiau a lwfansau datganoledig ar gyfer 24/25 a 25/26 yn unol â chwyddiant.
21.	Mae Llywodraeth y DU yn lleihau didyniadau o fudd-daliadau o 25% i 10% yn 24/25.

Cefnogi gwydnwch emosiynol

22.	Mae Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn treialu teithiau bws am ddim i bobl ifanc drwy gyflwyno teithio am ddim i bobl dan 16 mlwydd oed yn 24/25 am gyfnod prawf.
23.	Mae Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn cymryd rhan mewn marchnata mwy gweithredol ar gyfer MyTravelPass i bobl ifanc 16–24 mlwydd oed nawr, cyn cyflwyno teithiau bws am ddim i bobl ifanc 16-18 mlwydd oed yn 25/26.

Dysgu, gwerthuso ac alinio

24.	Mae Llywodraeth Cymru yn annog system ar gyfer gwerthuso effaith mentrau polisi costau byw.
25.	Mae Llywodraeth Cymru yn alinio mentrau Yr argyfwng â mentrau gwrthdlodi strategol eraill, megis y Strategaeth Tlodi Plant, a allai ategu pwysigrwydd cyflawni canlyniadau trwy gamau gweithredu clir a chyflawniadau penodedig.

Mai 2026 ymlaen

Trawsnewid gwydnwch ariannol

26.	Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio adnoddau ychwanegol yn nhymor nesaf y Senedd i gyflawni buddsoddiadau polisi â blaenoriaeth a fydd yn helpu i leihau tlodi a gwella diogelwch ariannol ledled Cymru.
27.	Mae Llywodraeth Cymru, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru yn arwain ymdrechion o'r newydd i hyrwyddo, atgyfnerthu ac ymgorffori ffyrdd Cenedlaethau'r Dyfodol o weithio yn nhymor nesaf y Senedd.
28.	Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio adnoddau ychwanegol gan Lywodraeth y DU (gweler Argymhelliad 25) i symud at fodel ariannu treigl tair blynedd a chreu system fwy gwydn o wasanaethau cyngor a chymorth.

29.	Yn nhymor nesaf y Senedd, mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu'n systematig ac yn hyrwyddo dulliau Buddsoddi i Arbed ac Enillion Cymdeithasol ar Fuddsoddi er mwyn meithrin gwydnwch ariannol, lleihau tlodi a darparu arbedion i'r pwrs cyhoeddus.
-----	--